# Archwilio sefydliadau cig cymeradwy

Sut rydym yn archwilio eich sefydliadau cig a'r hyn sydd angen i chi ei wybod fel perchennog busnes bwyd.

## Y broses archwilio

Mae ein harchwiliadau'n canolbwyntio ar ba mor effeithiol yw'r systemau rheoli diogelwch bwyd a roddwyd ar waith gan y gweithredwr busnes bwyd yn ystod y cyfnod archwilio.

Mae trefniadau archwilio'n berthnasol i bob sefydliad cig sydd wedi'i gymeradwyo yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, ac sydd o dan reolaeth filfeyddgol, sef:

- lladd-dai cig coch/anifeiliaid hela sy'n cael eu ffermio
- lladd-dai cig dofednod
- ffatrïoedd torri
- sefydliadau trin helgig
- sefydliadau briwgig, paratoadau cig a chig wedi'i wahanu'n fecanyddol sydd wedi'u cydleoli â lladd-dai neu ffatrïoedd torri
- ffatrïoedd cynnyrch cig a sefydliadau bwyd 'parod i'w fwyta' sydd wedi'u cydleoli â lladd-dai neu ffatrïoedd torri
- storfeydd oer sydd wedi'u cydleoli

Mae'r adrannau archwilio yn yr adroddiad archwilio'n seiliedig ar yr egwyddorion a osodwyd ar gyfer yr ASB y cytunwyd arnynt rhwng yr ASB, Defra, a rhanddeiliaid yn y diwydiant.

Mae'r archwiliad yn cynnwys:

- y mesurau rheoli sydd ar waith i leihau'r posibilrwydd bod clefydau anifeiliaid yn cael eu lledaenu
- mesurau diogelu lles anifeiliaid
- mesurau rheoli sy'n sicrhau cynhyrchu hylan
- hylendid amgylcheddol ac arferion hylendid da
- effeithiolrwydd y systemau diogelwch bwyd yn seiliedig ar egwyddorion Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol (HACCP)
- sut caiff sgil-gynhyrchion anifeiliaid a gwastraff eu trin
- pa mor effeithiol yw mesurau rheoli a gwaredu deunydd risg penodedig o wartheg, defaid a geifr

Nid oes angen cwblhau pob adran ar gyfer pob sefydliad. Bydd hyn yn dibynnu ar y math o sefydliad a'r gweithgarwch a gyflawnir.

Cynhelir yr archwiliadau gan archwilwyr milfeddygol y llywodraeth, a bwriad yr archwiliadau yw:

- sicrhau bod gweithredwyr busnesau bwyd yn cydymffurfio â gofynion cyfraith bwyd
- sicrhau bod gweithredwyr busnesau bwyd yn bodloni safonau rheoleiddiol mewn perthynas ag iechyd y cyhoedd ac, mewn lladd-dai, iechyd a lles anifeiliaid

Mae manylion llawn y broses archwilio a chyfarwyddiadau i'n swyddogion ym mhennod 4 o'r Llawlyfr Rheolaethau Swyddogol.

# Sgorio archwiliadau

Mae ein harchwiliadau'n seiliedig ar risg. Caiff pob adran o'r rhestr wirio ar gyfer archwiliadau ei hasesu'n llawn yn ystod y broses archwilio. Mae sgorio'r cwestiynau archwilio yn seiliedig ar dystiolaeth wrthrychol.

## Cydymffurfio

Asesir bod cwestiwn archwilio yn cydymffurfio os yw'n:

- cyd-fynd â system rheoli diogelwch bwyd gweithredwr y busnes bwyd
- bodloni gofynion y rheoliadau

Yn achos lladd-dai, mae angen iddynt fodloni gofynion cyfreithiau lles ac anifeiliaid hefyd.

## Mân achosion o ddiffyg cydymffurfio

Mae mân achosion o ddiffyg cydymffurfio yn sefyllfaoedd risg isel, nad ydynt yn atal sefydliad rhag cynnal mesurau rheoli eu rhaglenni diogelwch bwyd a iechyd a lles anifeiliaid.

Pan fo nifer o fân achosion o ddiffyg cydymffurfio, gall ddod yn achos sylweddol o ddiffyg cydymffurfio.

## Diffyg cydymffurfio sylweddol

Os na chymerir camau i fynd i'r afael ag achosion o ddiffyg cydymffurfio, gallant ddod yn achosion sylweddol o ddiffyg cydymffurfio. Mae hyn yn digwydd pan fo diffyg cydymffurfiaeth yn debygol o beryglu iechyd a lles pobl neu anifeiliaid, neu pan allai arwain at gynhyrchu neu drin bwyd anaddas ac anniogel.

Pan fo nifer o achosion sylweddol o ddiffyg cydymffurfio, gall ddod yn achos difrifol o ddiffyg cydymffurfio.

## Diffyg cydymffurfio difrifol

Achosion nad ydynt yn cydymffurfio, lle asesir bod perygl difrifol i iechyd y cyhoedd, iechyd anifeiliaid neu les anifeiliaid.

# Canlyniadau archwilio a sgoriau cydymffurfio

Mae pedair sgôr gydymffurfio yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

## Sgoriau cydymffurfio

Da – ni nodwyd unrhyw faterion o bwys i iechyd y cyhoedd, iechyd anifeiliaid na lles anifeiliaid yn ystod y cyfnod archwilio cyfan.

Boddhaol ar y cyfan – ni nodwyd unrhyw broblemau uniongyrchol arwyddocaol i iechyd y cyhoedd, iechyd neu les anifeiliaid ar ddiwrnod yr archwiliad. Mae unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod y cyfnod archwilio wedi'u cywiro'n syth.

Angen gwella – nodwyd achosion sylweddol o ddiffyg cydymffurfio yn yr archwiliad a/neu ni wnaethant ymateb a chywiro'r achosion o ddiffyg cydymffurfio yn ystod y cyfnod archwilio yn syth bob tro.

Angen gwella ar frys – nodwyd nifer o achosion sylweddol neu ddifrifol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr ymweliad archwilio neu'r cyfnod archwilio interim. Mae angen ymyriad swyddogol i sicrhau mesurau diogelu iechyd y cyhoedd.

## Pryd caiff archwiliadau eu cynnal

Bydd archwiliadau'n cychwyn tri mis ar ôl rhoi cymeradwyaeth lawn.

Wrth bennu pa mor aml rydym yn archwilio busnes, rydym yn edrych ar y sgôr gydymffurfio gyffredinol. Rydym yn archwilio lladd-dai a ffatrïoedd torri bob dau, tri, 12 neu 18 mis, yn dibynnu ar y peryglon posib a nodwyd yn yr archwiliad llawn diwethaf. Caiff archwiliadau llawn ac archwiliadau rhannol, dilynol eu cynnal yn ddi-rybudd.

**Amserlenni archwiliadau**

| Canlyniad archwiliad | Archwiliad rhannol, dilynol | Amlder archwiliadau llawn |
|---|---|---|
| Da | 0 | 18 mis (sl) / 12 mis (cp) |
| Boddhaol ar y cyfan | Cyn pen 3 mis | 12 mis |
| Angen gwella | Cyn pen 1 mis | 3 mis |
| Angen gwella ar frys | Cyn pen 1 mis | 2 fis |

Mewn ffatrïoedd torri, mae arolygiadau dirybudd yn digwydd rhwng archwiliadau a raglennir.

## Ymestyn amlderau archwilio

Mae'r system hon yn cydnabod sefydliadau sy'n cydymffurfio'n dda, er enghraifft, safleoedd sydd wedi cael dau ganlyniad da yn olynol.

Bydd lladd-dai sy'n cydymffurfio'n dda yn cael eu harchwilio bob tair blynedd, a ffatrïoedd torri sy'n cydymffurfio'n dda bob dwy flynedd.

## Cyhoeddi adroddiadau archwilio

Rydym yn cyhoeddi'r sgoriau archwilio diweddaraf ar gyfer sefydliadau cig cymeradwy yng Nghymru, Lloegr, a Gogledd Iwerddon. Caiff y sgoriau hyn eu diweddaru'n fisol. Gan fod gweithredwyr busnesau bwyd yn gallu apelio canlyniad yr archwiliad, ni fydd canlyniad yr archwiliad yn cael ei gyhoeddi tan ddiwedd y broses apelio.

### England, Northern Ireland and Wales

CSV
Gweld Archwiliad - Metadata (Saesneg yn unig) as CSV(Open in a new window) (17.88 KB)

Dolen i setiau data archwilio sydd wedi'u cyhoeddi

## Apelio Canlyniad Archwilio

Rhaid i weithredwyr busnesau bwyd sy'n dymuno gwneud cais am adolygiad o'r adroddiad archwilio diweddaraf lenwi'r ffurflen apelio yn erbyn archwiliad a'i hanfon i approvals@food.gov.uk cyn pen 14 diwrnod calendr i gael yr adroddiad archwilio cychwynnol.

WORD
Gweld Cais am Adolygiad o Adroddiad Llawn (Saesneg yn unig) as Word(Open in a new window) (241.5 KB)

## Protocol Ymyrryd

Mae'r ddogfen protocol ymyrryd yn rhoi gwybodaeth am y camau a gymerir os na fydd gweithredwr busnes bwyd yn rhoi mesurau ar waith i wella lefelau cydymffurfio. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol.

Nod y protocol ymyrryd yw diogelu defnyddwyr a gwella iechyd y cyhoedd drwy wella cydymffurfiaeth gyffredinol busnesau, a hynny drwy:

- dargedu ymyriadau effaith uchel pan fo risgiau i iechyd y cyhoedd
- ceisio cydymffurfiaeth ar frys mewn meysydd o ddiffyg cydymffurfio risg uchel a thargedu ymyriadau
- darparu ymateb graddol a chymesur i ddiffyg cydymffurfio â deddfwriaeth gan sicrhau elfennau cynghori a rhwystro, ynghyd â dwysáu cosbau lle bo angen yn seiliedig ar lefel risg y diffyg cydymffurfio mewn sefydliadau unigol

Mae'r protocol ymyrryd ar gyfer sefydliadau cig a gymeradwyir gan yr ASB yn Adran 6 o Bennod 7 yn y Llawlyfr rheolaethau swyddogol.

Mae gennym dempledi i chi eu defnyddio wrth ddogfennu'r mesurau hyn.

### England, Northern Ireland and Wales

WORD
Gweld Cofnod o gyfarfod rhwng gweithredwr y busnes bwyd a'r milfeddyg (Saesneg yn unig) as Word(Open in a new window) (52 KB)
WORD
Gweld Cofnod o gyfarfod rhwng pennaeth maes cyflawni gweithrediadau a'r prif filfeddyg maes (Saesneg yn unig) as Word(Open in a new window) (56 KB)

### England, Northern Ireland and Wales

EXCEL
Gweld Enghraifft o log ymyrryd yr ASB (Saesneg yn unig)  as Excel(Open in a new window) (40 KB)
EXCEL
Gweld Cofnod ymyrryd yr ASB (Saesneg yn unig) as Excel(Open in a new window) (44 KB)

WORD
Gweld Adolygiad y prif filfeddyg maes o’r adroddiad cymeradwyo (Saesneg yn unig) as Word(Open in a new window) (451.5 KB)

## Yr Alban

Yn yr Alban, caiff yr archwiliadau hyn eu cynnal gan Safonau Bwyd yr Alban.

## Gogledd Iwerddon

Yng Ngogledd Iwerddon, caiff yr archwiliadau hyn eu cynnal gan yr Adran Amaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA) ar ran yr ASB yng Ngogledd Iwerddon.